

Adroddiad Monitro Openreach

Sicrhau Openreach annibynnol sydd wedi ymrwymo i gystadleuaeth deg

Cyhoeddwyd 11 Medi 2024

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	3
2. Cydymffurio ag ymrwymadau	4
3. Perfformiad yn erbyn gofynion WFTMR	7
4. Edrych i'r dyfodol	13

1. Trosolwg

- 1.1 Roedd [ein hadroddiad diwethaf](#) ym mis Mehefin 2023 yn amlinellu rôl Uned Monitro Openreach (OMU) a hefyd yn egluro [hanes BT, Openreach a'r Ymrwymiadau](#). Rydym yn parhau i sicrhau bod Openreach yn gweithredu gydag annibyniaeth strategol ar BT Group yn ogystal â monitro cydymffurfiaid Openreach â'r gofynion rheoleiddio roeddem wedi'u gosod arno yn yr [Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol](#) (WFTMR) 2021-2026.
- 1.2 Ers ein hadroddiad diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd cyflym parhaus mewn argaeledd ffeibr llawn i bobl ledled y DU, gyda dros hanner cartrefi'r DU nawr yn gallu cael gafael ar fand eang ffeibr llawn. Mae'r cyfnod sylweddol hwn o fuddsoddiad ar draws y diwydiant yn golygu bod gwaith monitro Openreach Ofcom nawr yn bwysicach nag erioed i sicrhau bod Darparwyr Cyfathrebiadau yn cael eu trin yn deg gan Openreach, y darparwr rhwydwaith mwyaf, wrth i gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau dyfu.
- 1.3 Dros y cyfnod adrodd diwethaf, mae'r OMU wedi bod yn canolbwyntio'n bennaf ar gwrdd â rhanddeiliaid a gwrando ar eu safbwyntiau a'u pryderon. Rydym yn crynhoi ac yn trafod y mathau o faterion a godir yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.
- 1.4 Er bod rhai achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r Ymrwymiadau wedi cael eu hadrodd, nid ydym wedi gweld tystiolaeth i gyfiawnhau agor unrhyw ymchwiliadau ffurfiol newydd yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Ym mis Mawrth eleni, bu i ni ganfod tor-amod yn dilyn ein hymchwiliad i fethiant Openreach i fodloni tri o'r rhwymedigaethau ansawdd gwasanaeth yn y marchnadoedd mynediad llinellau ar brydles a mynediad lleol cyfanwerthol yn ystod 2022/23 – mae hyn yn cael ei drafod yn fanylach yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i gwrdd yn rheolaidd â rhanddeiliaid ac rydym yn barod i gymryd camau gorfodi i ddal BT ac Openreach i gyfrif pan fydd angen.
- 1.5 Rydym yn dal i weld tystiolaeth bod yr Ymrwymiadau'n gweithio yn ôl y bwriad a'u bod wedi hen ennill eu plwyf ac wedi'u gwreiddio'n dda ar draws BT ac Openreach. Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â BT ac Openreach ac yn deall sut mae'r Ymrwymiadau'n gweithio'n ymarferol. Rydym wedi croesawu'r adroddiadau cadarnhaol a'r dystiolaeth gan BT ac Openreach bod yr Ymrwymiadau wedi'u gwreiddio yn niwylliant y ddau sefydliad.
- 1.6 Eleni, rydym wedi gweld tystiolaeth o ymdrechion BT Group i adnewyddu a diweddarau ei ymgysylltiad â'r Ymrwymiadau. Mae hyn yn dilyn penodi Prif Swyddog Gweithredol newydd, Allison Kirkby, a wasanaethodd fel cyfarwyddwr anweithredol BT ers 2019, gan gynnwys ar yr is-bwyllgor sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaid BT â'r Ymrwymiadau.
- 1.7 Fel y nodwyd gennym yn ein hadroddiad diwethaf, byddwn yn parhau i fod yn wyladwrus i sicrhau nad oes unrhyw hunanfodlonrwydd a bod BT ac Openreach yn gweithredu nid yn unig yn unol â llythren yr Ymrwymiadau ond yn unol â'r ysbryd fel y bwriadwyd.

2. Cydymffurfio ag ymrwymïadau

Trosolwg

- 2.1 Mae canfyddiadau ein gweithgareddau monitro dros y flwyddyn ddiwethaf yn dal i ddangos bod yr Ymrwymïadau wedi'u hen sefydlu ac wedi'u gwreiddio'n dda ar draws BT ac Openreach ac yn parhau i weithredu fel y bwriadwyd.
- 2.2 Rydym yn cwrdd yn rheolaidd ac ar wahân â Swyddfa Monitro Ymrwymïadau Openreach (CMO) a'r Swyddfa Sicrhau Ymrwymïadau (CAO) yn BT, yn unol â'r [Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng BT ac Ofcom](#). Mae'r Swyddfeydd hyn wedi cael eu sefydlu i fonitro eu sefydliadau eu hunain, gan helpu i sicrhau bod yr Ymrwymïadau'n gweithio'n dda yn ymarferol ac yn unol â'r bwriad. Rydym o'r farn bod y ddwy swyddogaeth yn parhau i weithredu gyda lefel uchel o drylwyrred a chraffu, gan ddal BT ac Openreach i gyfrif.
- 2.3 Yn ein hadroddiad diwethaf, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod llwyddiant yr Ymrwymïadau hyd yma wedi deillio'n rhannol o benderfyniadau a dewisiadau arweinwyr allweddol BT ac Openreach. Roeddem hefyd wedi nodi risg o newidiadau diwylliannol ac ymddygiadol yn deillio o arweinyddiaeth newydd. Gyda phenodiad Prif Swyddog Gweithredol newydd BT ym mis Chwefror 2024, rydym wedi bod yn arbennig o ofalus i sicrhau bod yr Ymrwymïadau, yn ystod y cyfnod hwn o newid, yn cael eu trin â'r un lefel o bwysigrwydd a diwydrwydd.
- 2.4 Wrth i ni symud i flwyddyn wyth yr Ymrwymïadau, rhaid i BT ac Openreach barhau i gymhwyso'r rheolau yn gadarn. Rydym wedi bod yn wylïadwrus, a byddwn yn parhau i fod yn wylïadwrus, wrth asesu unrhyw achosion posibl o dorri'r rheolau.

Gweithgareddau monitro

Cydymffurfio'n rhagweithiol

- 2.5 Mae'r CMO a CAO wedi parhau i adrodd ar nifer o weithgareddau cydymffurfio rhagweithiol i adolygu cydymffurfiad â'r Ymrwymïadau ar draws Grŵp BT. Mae hyn wedi cynnwys deunyddiau cynefino a hyfforddi newydd ar gyfer Uwch Weithredwyr sydd wedi'u dylunio i gadw cof corfforaethol BT mewn perthynas â chynnal gwybodaeth am hanes a phwysigrwydd yr Ymrwymïadau. Rydym wedi croesawu adroddiadau bod y Prif Swyddog Gweithredol newydd wedi bod yn arbennig o gefnogol o ran gyrru'r fenter hon a sicrhau bod yr Ymrwymïadau'n parhau i fod yn flaenllaw.
- 2.6 O ran cydweithwyr ehangach BT, dywedodd y CAO fod BT wedi cynnal arolwg cydweithwyr i weld a oedd yr Ymrwymïadau wedi'u gwreiddio ym meddylfryd unigolion allweddol (yn dilyn ymarfer tebyg a gynhaliwyd yn flaenorol yn 2020). Er bod y canfyddiadau'n gadarnhaol, mae'r CAO wedi cymryd camau i sicrhau y bydd hyfforddiant wedi'i dargedu'n cael ei ddarparu i sicrhau bod yr Ymrwymïadau'n cael eu deall ar lefel ymarferol. Rydym yn cefnogi'r dull hwn ac yn cydnabod, er bod uwch arweinwyr yn gyfrifol am sicrhau bod ysbryd yr Ymrwymïadau yn cael ei ddeall yn dda ar draws BT ac Openreach, ei bod yn bwysig bod cydweithwyr ar bob lefel yn hyderus wrth gymhwyso egwyddorion yr Ymrwymïadau, gan gynnwys mewn rolau mwy gweithredol.

Materion cydymffurfio

- 2.7 Mae'r achosion o dorri amodau cydymffurfio â'r Ymrwymadau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn dal yn isel ac mae lefel yr adroddiadau a'r digwyddiadau yn dangos bod mesurau ar draws BT ac Openreach wedi llwyddo i gofnodi pryderon ynghylch cydymffurfio ag Ymrwymadau. Rydym yn parhau i gael sicrwydd, lle mae materion wedi codi, y gwelwyd tystiolaeth bod y rhain wedi cael eu trin o ddifrif.
- 2.8 Lle cafwyd achosion o dorri rheolau, mae'r ymchwiliadau a gynhaliwyd gan y CMO a CAO wedi arwain at gymryd camau adfer. Rydym hefyd wedi gweld tystiolaeth o'r craffu pellach ar lefel uwch a roddwyd ar waith gan y cyrff goruchwyllo perthnasol ar lefel bwrdd. Rydym wedi crynhoi'r materion cydymffurfio a adroddwyd i ni isod.
- 2.9 Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, rhoddwyd gwybod i ni am ddau achos o dorri rheolau gan y CMO a oedd yn cael eu categorio fel mân achosion o dorri rheolau¹, y naill a'r llall yn ymwneud â rhannu Gwybodaeth Gyfrinachol i Gwsmeriaid Openreach yn amhriodol.² Dywedodd y CMO hefyd fod Pwyllgor Archwilio, Risg a Chydymffurfiaid (OBARCC) Openreach wedi ymchwilio i faterion lle na thorwyd llythyren yr Ymrwymadau, ond lle'r oedd achos pryder posibl serch hynny. Fel arfer, byddai hyn yn digwydd pan na fydd polisiâu sy'n cael eu sefydlu i sicrhau cydymffurfiaid â'r Ymrwymadau – ond nad ydynt yn orfodol yn yr Ymrwymadau – wedi cael eu dilyn. Mae'r rhain wedi'u categorio fel diffyg cydymffurfio â'r polisi. Rydym yn cefnogi'r dull hwn sy'n dangos dealltwriaeth o ysbryd yr Ymrwymadau.
- 2.10 Dros yr un cyfnod, adroddodd y CAO un achos difrifol, a dau fân achos yn ymwneud â rhannu Gwybodaeth Gyfrinachol i Gwsmeriaid a ystyriwyd gan Bwyllgor Cydymffurfiaid BT (BTCC), a chyhoeddir manylion y rhain ym mwletin rheolaidd ac adolygiad blynyddol BARC.³
- 2.11 Roedd yr achos difrifol yn ymwneud â nodi adolygiad sicrwydd Cydymffurfio â Rheoliadau Cyfathrebiadau (CRC) BT o geblau hydra a oedd wedi cael eu trefnu a'u gosod yn anghywir mewn Cyfnewidfa yn 2022, lle dylai cynnyrch Cebilelink Openreach fod wedi cael ei ddefnyddio. Bach iawn oedd effaith hyn ar ddarparwyr cyfathrebiadau ac roeddem yn croesawu'r mesurau a gymerwyd gan BT i ddarparu ac adnewyddu hyfforddiant ar gyfer tîm Cablelink.
- 2.12 Ein hasesiad ni yw nad oedd yr un o'r digwyddiadau hyn yn cynnwys bwriad i dorri'r Ymrwymadau ac nad oedd gan unrhyw ddarparwyr cyfathrebiadau wedi cael mantais nac anfantais, ac yn ogystal, ein barn ni yw bod swyddogaethau cydymffurfio BT ac Openreach wedi ymchwilio'n drylwyr ac yn gadarn i bob un. Felly, ni wnaethom gymryd unrhyw gamau ychwanegol.

¹ Mae achosion o dorri rheolau yn cael eu categorio gan BT ac Openreach fel rhai mân neu ddifrifol: *Y mân achosion yw pan fydd achosion o ddiffyg cydymffurfio technegol wedi dod i'r amlwg. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw wedi cael fawr ddim effaith, os o gwbl, ar ddarparwyr cyfathrebiadau, fel rhai achosion o rannu gwybodaeth yn fewnol yn BT Group gydag unigolion na ddylai fod wedi cael mynediad. Achos difrifol o dorri rheolau yw pan ystyrir bod diffyg cydymffurfio yn fwy difrifol ei natur ac efallai ei fod wedi cael effaith uniongyrchol ar ddarparwyr cyfathrebiadau, fel pan fydd Openreach wedi defnyddio proses wahanol i ddarparu gwasanaeth i BT a ddarparwyr cyfathrebiadau nad ydynt yn BT.*

² Mae rhagor o wybodaeth am yr achosion o dorri rheolau yn cael eu datgelu yn adolygiad blynyddol diweddaraf OBARCC: [Swyddfa Monitro Ymrwymadau \(openreach.co.uk\)](https://www.openreach.co.uk)

³ [Cyhoeddiadau a dogfennau DCR - Pwyllgor Cydymffurfiaid BT - Llywodraethu Grŵp - Ein Cwmni | BT Plc](#)

Llywodraethu Ymrwymadau

- 2.13 Drwy gydol y cyfnod adrodd, rydym wedi gweithio gyda'r CAO ar nifer o fentrau i adolygu'r mesurau llywodraethu presennol sydd ar waith, gan ddiweddarau pan fydd newidiadau wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol, o ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers i'r Ymrwymadau ddod i rym.
- 2.14 Yn gynharach eleni, rhoddodd y CAO wybod i ni am newidiadau yr oedd BT yn bwriadu eu gwneud i'w drefniadau llywodraethu ar gyfer adolygu cydymffurfiaid BT â'r Ymrwymadau⁴. Mae BT bellach wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb o Bwyllgor Cydymffurfio BT i Bwyllgor Archwilio a Risg BT (BARC) (sy'n weithredol o fis Ebrill 2024 ymlaen). Mae Ofcom yn croesawu penderfyniad BT i adnewyddu a diweddarau ei drefniadau llywodraethu.⁵ Rydym yn credu ei bod yn hanfodol bod BT yn herio ei hun yn barhaus i sicrhau bod ei drefniadau llywodraethu yn briodol ac yn effeithiol i Grŵp BT yn barhaus er mwyn osgoi bod yn hunanfodlon. Rydym yn fodlon y bydd y newid yn parhau i ganiatáu i BT fonitro bod yr Ymrwymadau'n gweithredu'n ymarferol yn unol â'r bwriad – gan gefnogi gwell annibyniaeth i Openreach⁶.
- 2.15 Dywedodd BT wrthym eu bod yn bwriadu diweddarau adran 13 yr Ymrwymadau i'w gwneud yn addas ar gyfer byd yn y Cwmwl wrth i fwy a mwy o systemau symud i'r Cwmwl. Roedd wedi canfod nad oedd iaith yr Ymrwymadau ar wahanu systemau yn trosi'n dda mewn amgylchedd Cwmwl a'i fod wedi dod ar draws cynlluniau systemau amrywiol a allai fod wedi wynebu heriau mewn perthynas ag Ymrwymadau pe baent yn cael eu gweithredu heb adolygu'r pwynt hwn. Fe wnaethom ymgysylltu'n helaeth â BT ynghylch eu cynllun drafft, cyn eu hysbysiad i ddiweddarau geiriad yr Ymrwymadau ar baratoi systemau (adran 13) i adlewyrchu symudiad BT i fwy o systemau yn y cwmwl wrth i BT ac Openreach foderneiddio eu hystâd systemau.

⁴ [Llythyr gan BT at Ofcom ynghylch monitro Ymrwymadau - 31 Mai 2024](#)

⁵ Dywedodd BT wrthym hefyd, yng ngoleuni'r newid hwn, y byddent yn diweddarau'r Memorandwm Cydddealltwriaeth i adlewyrchu'r broses o drosglwyddo trefniadau llywodraethu Ymrwymadau BT o Bwyllgor Cydymffurfio BT (BTCC) i Bwyllgor Archwilio a Risg BT (BARC) a'r ffordd bresennol y mae'r OMU a CAO yn gweithio gyda'i gilydd. [Llythyr gan BT i Ofcom ynghylch monitro Ymrwymadau - 31 Mai 2024](#)

⁶ (Mae'r cynnwys hwn ar gael yn Saesneg yn unig) [Letter from Ofcom to BT re Commitments monitoring - 25 June 2024](#)

3. Perfformiad yn erbyn gofynion WFTMR

- 3.1 Mae cydymffurfriad Openreach â'r gofynion rheoleiddio roeddem wedi'u gosod arno yn yr [Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol](#) (WFTMR) 2021-2026 yn hanfodol er mwyn cyflawni ein hamcanion o hybu cystadleuaeth rhwydwaith a buddsoddiad mewn rhwydweithiau â galluedd gigabit.
- 3.2 Mae ein gofynion hefyd yn cydnabod yr angen i ddiogelu buddiannau defnyddwyr, gan gynnwys mewn perthynas â phrisiau ac ansawdd gwasanaeth, yn enwedig mewn cyfnod pan fo cystadleuaeth rhwydwaith yn datblygu ac mewn rhannau o'r DU lle mae cystadleuaeth rhwydwaith yn annhebygol o fod yn hyfyw.
- 3.3 Felly, un o brif elfennau ein rhaglen fonitro yw'r gwaith parhaus o fonitro gweithgareddau Openreach mewn perthynas â'r gofynion hyn er mwyn sicrhau bod cystadleuaeth deg yn digwydd.
- 3.4 Rydym hefyd yn monitro cynnydd yn erbyn amcanion allweddol WFTMR o ran buddsoddi a chystadleuaeth. Yn y WFTMR, fe wnaethom ddweud ein bod yn disgwyl i weithgareddau masnachol ddarparu rhwydweithiau â galluedd gigabit ar gyfer o leiaf 80% o adeiladau'r DU erbyn mis Mawrth 2026. Ers 2021, mae Openreach a llawer o gwmnïau eraill wedi buddsoddi'n sylweddol mewn cyflwyno rhwydweithiau â galluedd gigabit.
- 3.5 Ym mis Ionawr 2024, roedd gan 80% o adeiladau'r DU fynediad at rwydwaith â galluedd gigabit, gyda 62% o adeiladau'r DU yn gallu cael mynediad at rwydwaith ffeibr, i fyny o 40% a 24% ym mis Mai 2021. Mae darpariaeth ffeibr llawn ym mhob un o'r pedair gwlad hefyd wedi codi ymhell dros 50%.
- 3.6 Mae'r adrannau isod yn nodi meysydd allweddol ar gyfer parhau i fonitro gweithrediad ein gofynion WFTMR i helpu i sicrhau ein bod yn parhau ar y trywydd iawn i gyflawni ein hamcanion.

Mynediad at Seilwaith Ffisegol ('PIA')

- 3.7 Mae'r ateb PIA yn set bwysig o ofynion yn y WFTMR, i ganiatáu i gystadleuwyr gael mynediad at bibellau a pholion Openreach. Mae PIA yn galluogi gweithredwyr rhwydweithiau eraill i gyflwyno eu rhwydweithiau ffeibr eu hunain, mewn cystadleuaeth ag Openreach, yn gyflymach ac am gost is na gorfod gosod eu pibellau a'u polion eu hunain.
- 3.8 Mae Ofcom yn parhau i gydnabod pwysigrwydd PIA wrth i ni geisio sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol ar gyfer gweithredwyr rhwydwaith eraill. Rydym yn monitro gweithgorau'r diwydiant yn ofalus, gan weithio'n agos gyda Swyddfa'r Dyfarnwr Telathrebu (OTA2), ac rydym yn cynnal cyfarfod ar lefel Prif Swyddogion Gweithredol sy'n canolbwyntio ar faterion PIA bob chwe mis.
- 3.9 Mae PIA mewn cyflwr aeddfed, gyda dros 100 o ddefnyddwyr gweithredol yn defnyddio degau o filoedd o gilometrau o bibellau a channoedd o filoedd o bolion, a rhagwelir twf sylweddol mewn defnydd.

- 3.10 Mae'r WFTMR yn gosod amodau ar Openreach i sicrhau bod 'dim gwahaniaethu diangen' (NUD) yn cael ei ddangos tuag at ddefnyddwyr PIA. Er mwyn sicrhau hyn, mae angen rhannu data cymharydd â ni, a gyda'r diwydiant, er mwyn tynnu sylw at unrhyw anghysondeb rhwng perfformiad mewnol Openreach wrth ddefnyddio seilwaith ffisegol a pherfformiad defnyddwyr PIA. Rydym yn parhau i ymgysylltu â'r diwydiant ar y setiau data sydd eu hangen i ddarparu'r tryloywder sy'n angenrheidiol. Gan adlewyrchu hyn, ychwanegwyd dau fetrig cymharydd newydd o fis Mehefin 2023 ymlaen, gan gynnig cipolwg manylach ar amserlenni addasu rhwydwaith gan leihau'r cyfyngiadau capasiti mewn pibellau ac ar bolion.
- 3.11 Mae trafodaethau ynghylch rheoli digwyddiadau wedi bod yn ffocws mawr yn y gymuned PIA dros y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig oherwydd lefelau cydymffurfio gwahanol ymysg defnyddwyr PIA gyda darpariaethau penodol mewn cytundebau contract gydag Openreach. Mae Ofcom wedi ymgysylltu'n helaeth ag Openreach ac eraill ar ymdrechion yn y diwydiant i sicrhau cydymffurfiaeth, er mwyn sicrhau aliniad â'r fframwaith rheoleiddio.
- 3.12 Un o sgil-ffeithiau cadarnhaol y ffocws hwn yw bod Openreach wedi mabwysiadu 'Fframwaith Ymateb Graddedig' (GRF). Mae'r fframwaith hwn yn ceisio mynd i'r afael â phryderon defnyddwyr PIA am effaith camau gweithredu Openreach mewn ymateb i dorri amodau contract, yn enwedig y bygythiad o atal defnyddio PIA yn rhanbarthol. Mae'r GRF yn nodi sut bydd Openreach yn ymateb i achosion o dorri amodau ar sail eu heffaith a'u difrifoldeb, gan geisio camau unioni cymesur i gyflawni'r safonau gofynnol. Mae'r haenau'n amlinellu amcanion ar gyfer camau adfer yn glir, gan arwain at ymgysylltu cyson â defnyddwyr PIA.
- 3.13 Yn ystod ein gwaith monitro, fe wnaethom graffu ar y cynigion i sicrhau eu bod yn ddigonol ac yn cyd-fynd â'r fframwaith rheoleiddio presennol a gofyn am farn defnyddwyr PIA. Rydym yn falch bod y GRF wedi cael ei groesawu gan ddefnyddwyr PIA a'i fod eisoes yn cael ei ddefnyddio. Mae ein pwerau parhaus i orfodi yn erbyn Openreach am dorri amodau cystadleuaeth yn rhoi rhagor o sicrwydd i'r diwydiant.
- 3.14 Rydym wedi clywed pryderon a nodwyd gan ddefnyddwyr PIA ynghylch systemau a phrosesau PIA sy'n achosi oedi a chost ychwanegol i weithgareddau defnyddio ffeibr. Rydym hefyd yn ymwybodol bod defnyddwyr PIA wedi mynegi'r pryderon hyn yn eu cyflwyniadau i'r Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau (TAR) 2026 ac wedi gwneud cynigion i wella'r ateb. Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad ac, yn y cyfamser, byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau cynnyrch PIA yn agos i sicrhau bod yr Amodau PIA yn cael eu bodloni.

Ansawdd gwasanaethau

- 3.15 Mae hefyd yn bwysig bod Openreach yn darparu ei wasanaethau⁷ i safon resymol ac yn y WFTMR rydym yn gosod rheolau ansawdd gwasanaeth arno i gyflawni hyn.⁸ Rydym yn monitro ei berfformiad yn erbyn y rheolau hyn a byddwn yn ymchwilio i achosion lle nad yw'n cydymffurfio.
- 3.16 Ar 18 Mawrth 2024, fe wnaethom gwblhau ymchwiliad ar ein liwt ein hun i gydymffurfiaid Openreach â safonau Ansawdd Gwasanaeth a osodwyd gennym mewn rhai marchnadoedd mynediad lleol cyfanwerthol, mynediad llinellau ar brydles a chysylltedd rhyng-gyfnewid ar gyfer y flwyddyn 2022-23. Gwelsom fod Openreach wedi mynd yn groes i amodau sylweddol ei bŵer yn y farchnad (SMP) drwy fethu â chydymffurfio â thri o'r safonau roeddem wedi gofyn iddo eu bodloni yn ystod y cyfnod hwnnw.⁹ Ar ôl ystyried yr wybodaeth a gasglwyd am yr amgylchiadau a effeithiodd ar berfformiad yn 2022/2023, a'r camau a gymerwyd gan Openreach i gydymffurfio â rhwymedigaethau Ansawdd Gwasanaeth BT o dan yr amgylchiadau hyn, mae Ofcom wedi penderfynu peidio â rhoi cosb ariannol neu unrhyw rwymedi arall mewn perthynas â'r achosion hyn o dorri amodau
- 3.17 Cawsom bryderon am yr anghysondeb, a'r diffyg tryloywder ymddangosiadol, rhwng y ffigurau dangosyddion perfformiad allweddol (KPI) a gyhoeddwyd ar wefan Openreach, a'r ffigurau ar berfformiad Openreach yr adroddwyd arnynt gan Ofcom yn ei ymchwiliad. Rydym wedi egluro bod y rhwymedigaeth ar Openreach i fod yn dryloyw ynghylch ei berfformiad gwasanaeth drwy gyhoeddi Dangosyddion Perfformiad Allweddol Ansawdd Gwasanaeth ar ei wefan yn cynnwys rhai cynnyrch mynediad rhwydwaith ac ardaloedd daearyddol nad ydynt yn ddarostyngedig i safonau Ansawdd Gwasanaeth.
- 3.18 Mae Openreach wedi adrodd ei fod wedi bodloni ei holl safonau Ansawdd Gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn 2023-24 ac rydym yn parhau i fonitro'r maes hwn.

Rhaglen gadael cyfnewidfeydd

- 3.19 Mae Openreach yn bwriadu lleihau nifer y cyfnewidfeydd y mae'n darparu gwasanaethau ohonynt yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae Openreach yn prydlesu gofod mewn tua 5,600 o gyfnewidfeydd BT i ddarparu gwasanaethau i ddarparwyr cyfathrebiadau, a gall darparwyr cyfathrebiadau gysylltu ag unrhyw un o'r cyfnewidfeydd hyn i godi traffig. Mae Openreach yn defnyddio tua 1,000 o gyfnewidfeydd – Pwyntiau Trosglwyddo Openreach (OHPs) – i ddarparu gwasanaethau band eang ffeibr ledled y wlad (FTTC, FTTP a G.fast). Mae'r 4,600 o gyfnewidfeydd sy'n weddill yn cael eu defnyddio i ddarparu band eang ADSL a gwasanaethau llais "gwaddol" (WLR, MPF a SMPF). Mae'r rhan fwyaf hefyd yn cael eu defnyddio i ddarparu

⁷ Mae rheolau Ofcom, a nodir yn y WFTMR, yn cynnwys gofynion ar Openreach i gydymffurfio â safonau perfformiad sylfaenol ar gyfer gosod ac atgyweirio rhai cynhyrchion mynediad rhwydwaith rheoledig gan gynnwys cyfleuster llwybr metelaidd (a ddefnyddir i ddarparu band eang safonol), ffeibr i'r cabinet (a ddefnyddir ar gyfer band eang cyflym iawn), llinellau ether-rwyd ar brydles a ffeibr tywyll (a ddefnyddir ar gyfer amrywiaeth o gymwysiadau lled band uchel). Ni wnaethom osod safonau Ansawdd Gwasanaeth ar wasanaethau FTTP yn y WFTMR, ond rydym yn adolygu hyn yn yr Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau 2026-31 presennol.

⁸ [2021 WFTMR Cyfrol 5: Ansawdd Gwasanaeth \(ofcom.org.uk\)](#)
[Ymchwilio i berfformiad ansawdd gwasanaeth Openreach o ran mynediad llinellau ar brydles a mynediad lleol cyfanwerthol yn 2022/23 - Ofcom](#)

Ether-rwyd neu wasanaethau llinellau eraill ar brydles.¹⁰ Felly, mae Cyfnewidfeidd BT yn rhannau pwysig o seilwaith telegyfathrebiadau'r DU.

- 3.20 Ym mis Rhagfyr 2020, dechreuodd Openreach drafod pensaernïaeth trosglwyddo hirdymor rhwydwaith Openreach gyda Darparwyr Cyfathrebiadau (CP). Mae gan Openreach uchelgais i adael 108 o adeiladau cyfnewidfeidd erbyn mis Rhagfyr 2030 (gan gynnwys 3 cynllun peilot i adael cyfnewidfeidd), a mwyafrif helaeth o'r 4,500 o gyfnewidfeidd eraill nad ydynt yn trosglwyddo ar ddechrau'r 2030au.
- 3.21 Ar hyn o bryd mae Openreach yn cynnal cynllun peilot ar gyfer gadael cyfnewidfeidd ac mae wedi ymgynghori ar wahanol agweddau ar y 105 o gyfnewidfeidd nesaf a fydd yn cau.¹¹ Ar y cyd ag OTA2, mae Openreach yn ymwneud â sawl fforwm yn y diwydiant lle mae materion sy'n ymwneud â chyfnewid yn dechrau cael eu trafod.
- 3.22 Ochr yn ochr â chydweithwyr Ofcom sy'n gweithio ar TAR 2026¹², bydd yr OMU yn monitro prosesau'r diwydiant sy'n ymwneud â chau cyfnewidfeidd yn ofalus. Yn 2021, roeddem yn cydnabod y bydd yn bwysig i'r diwydiant gael gwybod yn gynnar am unrhyw gau o'r fath a bod cynhyrchion addas ar gael er mwyn iddynt allu aildrefnu eu rhwydwaith/rhwydweithiau yn unol â hynny.¹³ Rydym yn disgwyl i Openreach barhau i gydymffurfio â'r rheoliadau mynediad presennol ar draws ei bortffolio cynnyrch.

Ymgysylltiad Openreach â rhanddeiliaid

- 3.23 Drwy gydol y cyfnod adrodd, mae'r OMU wedi cwrdd â rhanddeiliaid yn y diwydiant i rannu gwybodaeth am y gwaith mae'r OMU yn ei wneud ac i ofyn am fewnbwn ar yr hyn sy'n mynd yn dda ym marn y diwydiant, yn ogystal â gwrando ar eu pryderon. Rydym wedi croesawu'r drafodaeth agored â rhanddeiliaid a byddwn yn parhau i feithrin y cysylltiadau hyn yn y dyfodol. Ein neges i'r diwydiant yw, pan fydd pryderon yn codi, y dylid cyflwyno'r materion hyn inni mewn amser real er mwyn inni allu ymyrryd yn rhagweithiol lle bo angen.
- 3.24 Yn yr hyn sy'n dilyn isod, rydym yn grwpio'r materion a godwyd gan rhanddeiliaid ers ein hadroddiad diwethaf yn ddwy thema:

Cyfathrebu rhwng Openreach a Darparwyr Cyfathrebiadau (CP)

- 3.25 Mae rhanddeiliaid wedi mynegi materion i ni ar draws nifer o feysydd lle mae eu prif bryder wedi ymwneud â dull Openreach o drafod â'u cwsmeriaid, yn benodol eu hawydd ymddangosiadol i Openreach ymgysylltu neu drafod â'u cwsmeriaid cyn cyhoeddi penderfyniadau masnachol. Mae enghreifftiau o hyn wedi ymwneud â dull Openreach o godi ffioedd canslo FTTP yn hwyr, trafodaethau Gwarant Lefel Gwasanaeth (SLG), a'r broses cydsyniad tybiedig ar gyfer gosodiadau FTTP.

Prosesau gweithredol a chystadleuaeth deg

- 3.26 Yn yr un modd, mae pryderon wedi cael eu mynegi gan y diwydiant ynghylch penderfyniadau a materion gweithredol Openreach. Rydym wedi cael adroddiadau am

¹⁰ Openreach, [Gadael Cyfnewidfeidd](#). [cyrchwyd 20/05/24]

¹¹ Openreach, [Gadael Cyfnewidfeidd](#). [cyrchwyd 20/05/24]

¹² Dyma ein hadolygiad o'r rheoliadau a fydd yn berthnasol i farchnadoedd telegyfathrebiadau sefydlog y DU o fis Ebrill 2026 tan fis Mawrth 2031. Gweler: [Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau 2026 – Gwaith cychwynnol ar adolygiad 2026-2031 \(ofcom.org.uk\)](#)

¹³ Ofcom 2021. [WFTMR 2021, rhwymedïau nad ydynt yn ymwneud â phrisio](#), 6.59.

achosion penodol lle mae darparwyr cyfathrebiadau wedi teimlo bod penderfyniadau BT ac Openreach wedi creu anfantais iddynt. Er enghraifft, mae rhanddeiliaid wedi mynegi eu pryderon wrthym ynghylch penderfyniad Openreach i beidio â chaniatáu gosodiadau FTTP lle mae'r cwsmer yn cael ei adnabod fel cwsmer teleofal, hyd yn oed lle mae gwasanaeth teleofal cwsmer wedi cael ei ystyried yn gydnaws â gwasanaethau VoIP (Protocol Llais dros y Rhyngwyd). Rydym yn deall gan ddarparwyr cyfathrebiadau bod hyn wedi arwain at gwynion gan gwsmeriaid. Mae hwn yn faes cymhleth ac rydym yn deall bod trafodaethau diweddar rhwng Openreach a'r diwydiant wedi datblygu'r mater hwn yn gadarnhaol.

- 3.27 Rydym yn cydnabod bod prosesau eisoes ar waith i hwyluso trafodaeth a negodi rhwng y diwydiant ac Openreach pan fydd problemau'n codi, ac rydym yn cwrdd yn rheolaidd â Swyddfa'r Dyfarnwr Telathrebu (yr OTA2) sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y materion hyn. Er y byddwn yn adolygu ac yn monitro materion o'r fath pan gânt eu codi, rydym yn fodlon y gellir datrys y rhan fwyaf o'r materion hyn heb i ni ymyrryd. Fodd bynnag, rydym yn barod i gymryd camau lle mae gennym dystiolaeth i awgrymu bod Openreach yn ymddwyn yn wrth-gystadleuol neu nad yw'n gweithredu yn unol ag ysbryd neu lythyren yr Ymrwymadau.

Costau trydan

- 3.28 Ddiwedd 2023, mynegodd nifer o ddarparwyr cyfathrebiadau bryderon gyda ni am ffioedd Openreach am bŵer yn ei fannau cydleoli. Roedd y pryderon hyn yn seiliedig ar gymharu metrigau prisiau trydan eraill a oedd, ym marn darparwyr perthnasol, yn awgrymu bod prisiau Openreach yn rhy uchel.
- 3.29 Fel rhan o'n gwaith monitro cydymffurfiaeth blynyddol, mae'n rhaid i Openreach ddarparu atodlen (AFI 22) fel rhan o'i Ddatganiadau Ariannol Rheoleiddiol. Mae hyn yn caniatáu i ni fonitro'r amod 'sail ffioedd' (Amod 62)¹⁴ a osodwyd ar Openreach a'r gofyniad bod Openreach yn trosglwyddo trydan am y gost y mae'n ei thalu, ynghyd â chynnydd priodol i adlewyrchu ei gostau.
- 3.30 Fel rhan o'n proses arferol, fe wnaethom adolygu'r AFI 22 blynyddol yn ofalus ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023 ac ni welwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y gofyniad wedi'i dorri. Fodd bynnag, o ystyried y pryderon a godwyd, fe wnaethom ofyn i Openreach am rywfaint o wybodaeth ychwanegol ynghylch sut mae Openreach yn pennu ei ffioedd. Rhoddodd Openreach gymhariaeth i ni o'r hyn a godwyd a'r costau gwirioneddol dros y pedair blynedd ariannol diwethaf – gan ein galluogi i ddeall maint unrhyw amrywiadau. Ar sail hyn, nid oedd dim i awgrymu bod y symiau a godir gan Openreach yn anghyson â'r amod 'sail ffioedd'.

'Goradeiladu' ffeibr

- 3.31 Ers ein hadroddiad diwethaf, mae rhanddeiliaid yn y diwydiant wedi mynegi pryderon pellach ynghylch ymddygiad gwrth-gystadleuol posibl sy'n ymwneud ag achosion penodol ynghylch amseriad cyhoeddi cynlluniau adeiladu ffeibr Openreach mewn ardaloedd lle mae cystadleuwyr wedi cyhoeddi eu cynlluniau adeiladu eu hunain, gan arwain at 'oradeiladu' eu rhwydwaith.

¹⁴ [2021 WFTMR Cyfrol 7: Offerynnau cyfreithiol \(ofcom.org.uk\)](https://www.ofcom.gov.uk/consult/condocs/wftmr/wftmr7/wftmr7.pdf)

- 3.32 Rydym wedi edrych o'r blaen ar bryderon a fynegwyd i Ofcom yn ymwneud ag adeiladu ffeibr Openreach, ac ym mis Tachwedd 2022, fe wnaethom gyhoeddi llythyr agored yn nodi ein safbwynt ar y pryderon a fynegwyd.¹⁵ Yn y llythyr hwnnw, fe wnaethom nodi y byddem yn parhau i fonitro cynlluniau a phenderfyniadau adeiladu Openreach, gan gynnwys asesu enghreifftiau penodol lle roedd pryderon ynghylch effaith penderfyniadau Openreach. O ystyried pryderon pellach, rydym wedi ymgysylltu ag Openreach eto ac mae ei ddull gweithredu ar gyfer y penderfyniadau hyn yn parhau fel yr oedd yn 2022 lle nad oeddem wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth bod Openreach yn targedu cystadleuwyr neu'n gwneud penderfyniadau nad oeddent yn fasnachol resymol.
- 3.33 Yn ein llythyr, fe wnaethom hefyd egluro, o ystyried cynllun Openreach i gyflwyno ffeibr i fwy na 80% o adeiladau'r DU, ei bod yn debygol y byddai'n adeiladu ar ryw adeg mewn ardaloedd lle'r oedd darparwyr eraill naill ai'n weithredol neu'n bwriadu bod yn weithredol. Ers hynny, mae Openreach wedi cyhoeddi camau pellach o waith adeiladau sy'n rhan o'r cynllun cyffredinol hwnnw ac rydym yn cydnabod bod y cyhoeddiadau hynny'n gallu codi pryderon. Rydym yn ystyried y pryderon hynny o ddifrif a byddwn yn gofyn am sicrwydd gan Openreach mewn perthynas ag unrhyw faterion o'r fath.
- 3.34 Er enghraifft, mynegodd darparwr rhwydwaith arall bryderon gyda ni ynghylch amseriad cyhoeddiad gan Openreach a oedd yn dilyn yn agos y cyhoeddiad eu bod wedi llwyddo i sicrhau cais am arian cyhoeddus yn yr un ardal. Roedd y dystiolaeth a gawsom gan Openreach yn dangos ei fod wedi bwriadu adeiladu yn yr ardal honno am sawl blwyddyn ac roedd wedi cadarnhau'r bwriad hwnnw i adeiladu nifer o fisoedd cyn dyfarnu'r contract cyllid cyhoeddus.
- 3.35 Ym mhob un o'r achosion rydym wedi edrych arnynt, nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod Openreach yn targedu'n strategol ardaloedd lle mae rhwydweithiau sy'n cystadlu â'i gilydd wedi adeiladu neu'n bwriadu adeiladu i niweidio cystadleuwyr neu atal eu cyflwyno mewn ardaloedd ehangach. Nid yw'r dystiolaeth rydym wedi'i gweld wedi dangos unrhyw awgrym nad yw penderfyniadau adeiladu Openreach yn fasnachol resymol, ac rydym yn fodlon ar yr esboniadau y tu ôl i benderfyniadau adeiladu a roddwyd i ni pan ofynnwyd i Openreach am y rhain. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod pryderon sylweddol o hyd gan y diwydiant ynghylch goradeiladu a byddwn yn parhau i fonitro'r materion hyn yn ofalus.

4. Edrych i'r dyfodol

- 4.1 Mae rôl a gwaith yr OMU yr un mor bwysig ag erioed wrth i ni symud ymlaen i flwyddyn wyth yr Ymrwymadau. Rydym yn parhau i fod yn arbennig o wylidwrus bod cydymffurfio â rheolau'r WFTMR a'r Ymrwymadau yn rhan annatod o weithredoedd, ymddygiad a diwylliant pawb dan sylw. Mae hyn yn hanfodol er mwyn osgoi unrhyw hunanfodlonrwydd.
- 4.2 Bydd yr OMU yn parhau i fonitro a yw BT ac Openreach yn gweithredu'n unol â'r Ymrwymadau ac yn unol â'u hysbryd, a byddwn yn parhau i ddal Openreach i gyfrif i sicrhau ei fod yn parhau i barchu cystadleuaeth deg ac yn gweithredu gydag annibyniaeth strategol ar BT Group.
- 4.3 Byddwn yn parhau i gael deialog agored am bryderon sy'n ymwneud â chystadleuaeth ac yn annog rhanddeiliaid i fynegi materion i ni yn eu cylch. Yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, fe wnaethom gynyddu ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid yn y diwydiant, ac rydym yn bwriadu parhau â hyn yn y dyfodol. Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn gallu mynd i'r afael yn rhagweithiol â materion neu bryderon am gydymffurfio neu ymddygiad gwrth-gystadleuol mewn amser real.
- 4.4 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwaith yr OMU o ran sicrhau cystadleuaeth deg ac yn y cyfnod sy'n arwain at yr adolygiad telegyfathrebiadau sefydlog nesaf, yr Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau (TAR) 2026, a byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr yn Ofcom i roi gwybod am bryderon a materion sy'n dod i'n sylw drwy ein gweithgareddau monitro.